



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 686 (Cy. 153)

2020 No. 686 (W. 153)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 7) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lleadaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Regulation 2 of these Regulations amends the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 ("the principal Regulations").

Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaeth—

The amendments consist of provision—

- (a) sy'n galluogi aelodau o aelwyd i gytuno ag un aelwyd arall i ffurfio aelwyd estynedig, a phan fo aelwyd estynedig wedi ei ffurfio, ystyr cyfeiriadau yn y prif Reoliadau at "aelwyd" yw'r aelwyd estynedig;

- (a) enabling members of a household to agree with one other household to form an extended household, and where an extended household has been formed references in the principal Regulations to a "household" mean the extended household;

- (b) sy'n dirymu'r gofyniad yn y prif Reoliadau i beidio â gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae person yn byw oni bai bod gennych esgus rhesymol;
- (c) sy'n symleiddio'r cyfyngiadau gwahanol ar ymgynnull o dan do ac yn yr awyr agored sydd ar hyn o bryd yn rheoliadau 8 ac 8B o'r prif Reoliadau;
- (d) sy'n egluro ei bod yn ofynnol cau atyniadau o dan do i ymwelwyr;
- (e) sy'n egluro ei bod yn esgus rhesymol ymgynnull gydag eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu mewn atyniadau awyr agored i ymwelwyr, ond dim ond yn unol â'r gofynion cadw pellter corfforol yn rheoliad 6 o'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

- (b) revoking the requirement in the principal Regulations not to leave the area local to the place where a person is living unless you have a reasonable excuse;
- (c) rationalising the different restrictions on gatherings indoors and outdoors currently in regulations 8 and 8B of the principal Regulations;
- (d) clarifying that indoor visitor attractions are required to be closed;
- (e) clarifying that it is a reasonable excuse to gather together with others to participate in activities organised at outdoor visitor attractions, but only in accordance with the physical distancing requirements in regulation 6 of the principal Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 686 (Cy. 153)

2020 No. 686 (W. 153)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Wales) (Amendment)
(No. 7) Regulations 2020**

Gwnaed am 12.30 p.m. ar 3 Gorffennaf 2020

Made at 12.30 p.m. on 3 July 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 3.30 p.m. ar 3 Gorffennaf 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 3.30 p.m. on 3 July 2020*

Yn dod i rym 6 Gorffennaf 2020

Coming into force 6 July 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that the amendments made by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnysodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 a deuant i rym ar 6 Gorffennaf 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1, ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) Os yw dwy aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio ym mharagraffau (7) ac (8)) at “aelwyd” i'w ddehongli fel petai'n cynnwys y ddwy aelwyd.

(7) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig rhaid i bob oedolyn ar y ddwy aelwyd gytuno.

(8) Ond—

- (a) dim ond gydag un aelwyd arall y caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd estynedig, a
- (b) os yw'r ddwy aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig, ni chaiff y naill aelwyd na'r llall gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd o dan baragraff (6) gydag unrhyw aelwyd arall.”

(3) Yn lle rheoliad 8 rhodder—

“8.—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 and they come into force on 6 July 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 1, after paragraph (5) insert—

“(6) If two households agree to be treated as a single (extended) household for the purposes of these Regulations, any reference in these Regulations (other than in paragraphs (7) and (8)) to a “household” is to be read as including both households.

(7) To agree to be treated as a single household all of the adults of the two households must agree.

(8) But—

- (a) a household may only agree to be treated as a single household with one other household, and
- (b) if two households cease to agree to be treated as a single household, neither household may agree to be treated as a single household under paragraph (6) with any other household.”

(3) For regulation 8 substitute—

“8.—(1) During the emergency period no person may, without a reasonable excuse—

(1) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/619 (Cy. 141)).

(1) S.I. 2020/353 (W. 80) as amended by the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/399 (W. 88)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/452 (W. 102)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/497 (W. 118)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/529 (W. 124)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/557 (W. 129)) and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/619 (W. 141)).

- (a) ymgynnull yn yr awyr agored gydag unrhyw berson arall oni bai am—
- (i) aelodau o'i aelwyd neu aelodau o ddim mwy nag un aelwyd arall,
 - (ii) gofalwr iddo, neu
 - (iii) person y mae'n darparu gofal iddo;
- (b) ymgynnull mewn mangre o dan do gydag unrhyw berson arall oni bai am—
- (i) aelodau o'i aelwyd,
 - (ii) gofalwr iddo, neu
 - (iii) person y mae'n darparu gofal iddo.
- (2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—
- (a) cael cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
 - (b) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
 - (c) darparu neu gael cynhorthwy brys;
 - (d) rhoi gwaed;
 - (e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
 - (f) pan fo'r person yn athletwr elit, hyfforddi neu gystadlu;
 - (g) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—
 - (i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.
 - (h) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (a) gather outdoors with any other person apart from—
- (i) members of their household or of no more than one other household,
 - (ii) their carer, or
 - (iii) a person they are providing care to;
- (b) gather in premises indoors with any other person apart from—
- (i) the members of their household,
 - (ii) their carer, or
 - (iii) a person they are providing care to.
- (2) A reasonable excuse includes the need to do the following—
- (a) obtain medical assistance, including accessing any of the services referred to in paragraph 42 of Schedule 1 or accessing veterinary services;
 - (b) provide or receive care or assistance, including relevant personal care, within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
 - (c) provide or receive emergency assistance;
 - (d) donate blood;
 - (e) work or provide voluntary or charitable services;
 - (f) where the person is an elite athlete, train or compete;
 - (g) attend a solemnization of a marriage or formation of a civil partnership—
 - (i) as a party to the marriage or civil partnership,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending.
 - (h) attend a funeral—
 - (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or

- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (i) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechniaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (j) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys—
- (i) gofal plant neu wasanaethau addysgol;
- (ii) gwasanaethau cymdeithasol;
- (iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- (iv) gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr (megis diodefwyr trosedd neu drais domestig);
- (k) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (l) symud cartref;
- (m) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;
- (n) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—
- (i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;
- (ii) gweld eiddo o'r fath;
- (o) cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan atyniadau awyr agored;
- (p) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.
- (3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ddiartref.
- (4) At ddibenion paragraff (2)(q), nid yw eiddo wedi ei feddiannu os nad oes unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa."
- (4) Hepgorer rheoliad 8B.
- (5) Yn rheoliad 10—
- (a) hepgorer paragraffau (2), (3) a (4);
- (iii) as the carer of a person attending;
- (i) meet a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (j) access or receive critical public services, including—
- (i) childcare or educational services;
- (ii) social services;
- (iii) services provided by the Department for Work and Pensions;
- (iv) services provided to victims (such as victims of crime or domestic violence);
- (k) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continue existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (l) move home;
- (m) prepare a residential property for persons to move in;
- (n) undertake the following activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of unoccupied residential property—
- (i) visiting estate or letting agents, developer sales offices or show homes;
- (ii) viewing such a property;
- (o) participate in activities organised by outdoor visitor attractions;
- (p) avoid injury or illness or escape a risk of harm.
- (3) Paragraph (1) does not apply to a person who is homeless.
- (4) For the purposes of paragraph (2)(q), a property is unoccupied if no person occupies the property as a residence."
- (4) Omit regulation 8B.
- (5) In regulation 10—
- (a) omit paragraphs (2), (3) and (4);

- (b) ym mharagraff (5), yn lle “mae gan U gyfrifoldeb am blentyn os oes gan U” rhodder “mae gan unigolyn gyfrifoldeb am blentyn os oes gan yr unigolyn”;
 - (c) hepgorer paragraff (6);
 - (d) ym mharagraff (7)—
 - (i) yn y testun Saesneg, hepgorer “together”;
 - (ii) yn lle “8B” rhodder “8(1)”;
 - (e) ym mharagraff (8A), yn lle “8B” rhodder “8(1)”;
 - (f) ym mharagraff (10), ar ôl “rheoliad 11” mewnosoder “(gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth o ran a yw dwy aelwyd wedi ymrwymo i gytundeb yn unol â rheoliad 1(6))”.
- (6) Yn rheoliad 12(1)(a), hepgorer “8B”.
- (7) Yn Atodlen 1—
- (a) yn Rhan 2 mewnosoder—
“24A. Atyniadau o dan do i ymwelwyr.”
 - (b) yn Rhan 4 mewnosoder—
“55. Atyniadau awyr agored i ymwelwyr.”

- (b) in paragraph (5), for “I has responsibility for a child if I” substitute “an individual has responsibility for a child if the individual”;
 - (c) omit paragraph (6);
 - (d) in paragraph (7)—
 - (i) omit “together”;
 - (ii) for “8B” substitute “8(1)”;
 - (e) in paragraph (8A), for “8B” substitute “8(1)”;
 - (f) in paragraph (10), after “regulation 11” insert “(including requiring a person to provide information as to whether two households have entered into an agreement in accordance with regulation 1(6))”.
- (6) In regulation 12(1)(a), omit “8B”.
- (7) In Schedule 1—
- (a) in Part 2 insert—
“24A. Indoor visitor attractions.”
 - (b) in Part 4 insert—
“55. Outdoor visitor attractions.”

Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol

3. Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.30 p.m. ar 3 Gorffennaf 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Savings for offences and penalties in relation to prior acts

3. Regulations 12 and 13 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 continue to have effect in relation to any offence committed, or reasonably believed to have been committed, before these Regulations came into force as if the amendments set out in regulation 2 had not been made.

Mark Drakeford

The First Minister, one of the Welsh Ministers
At 12.30 p.m. on 3 July 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202007031013 07/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/686>

ISBN 978-0-348-20580-0



9 780348 205800